

Wylfa Site Stakeholder Group Meeting

To be held on Thursday, 13 October 2022 at 0930 hrs

Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Wylfa Newydd Site Offices (Horizon Nuclear Power), Cemaes Bay, Anglesey, LL67 0AA

Refreshments will be served from 0900 and please bring with you a piece of photographic Identification (current passport or photographic drivers' licence) to allow access.

- | | |
|---|--------------------------|
| 1. Welcome (5 min) | Aled M Jones |
| 2. Apologies for Absence & Approval of Minutes of the 10 February 2022 Meeting (5 min) | All |
| 3. Matters arising from the previous Minutes (5 min) | All |
| 4. SSG Chairman's Report (10 min) | Aled M Jones |
| 5. Wylfa Site Director's Report (30 min) | Stuart Law |
| 6. Magnox Corporate Update (10 min) | Bill Hamilton |
| 7. Nuclear Decommissioning Authority Update (15 min) | Simon Napper |
| 8. Office for Nuclear Regulation Update (10 min) | Ian Dallas |
| 9. Natural Resources Wales / Environment Agency Update (10 min) | David Wilby/Kate Simpson |
| 10. Open Question and Answer Forum Session | All |
| 11. Any Other Business | All |

Next Meeting – 9 February 2023

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

I'w gynnal ddydd Iau, 13 Hydref 2022 am 0930 o'r gloch
Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Swyddfeydd Safle Wylfa Newydd (Pŵer Niwclear Horizon), Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0AA

Bydd lluniaeth yn cael ei weini o 0900 a dewch â phrawf adnabod â'ch llun arno (pasbort cyfredol neu drwydded yrru â llun) gyda chi i ganiatáu mynediad.

1. Croeso (5 munud)	Aled M Jones
2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 (5 munud)	Pawb
3. Materion a godwyd o'r Cofnodion blaenorol (5 munud)	Pawb
4. Adroddiad Cadeirydd yr SSG (10 munud)	Aled M Jones
5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa (30 munud)	Stuart Law
6. Diweddariad Corfforaethol Magnox (10 munud)	Bill Hamilton
7. Diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (15 munud)	Simon Napper
8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (10 munud)	Ian Dallas
9. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd (10 munud)	David Wilby/Kate Simpson
10. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored	Pawb
11. Unrhyw Fater Arall	Pawb



Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 10 February 2022 held on Zoom

1. The Chairman reported on the following: -
 - Magnox Chairs Meeting – 5 November 2021
 - NDA Virtual Summit - 26 November 2021
 - Magnox Chairs and Vice Chairs Quarterly Update Meeting - 3 December 2021
 - SSG Chairs quarterly meeting due to be held virtually on 11.2.22.
 - Proposal presented to Magnox to develop an SSG specific website.
2. Stuart Law presented the Site Director's Report circulated previously within the meeting pack. He was pleased to report that despite the ongoing challenges of COVID 19, the site remained operational, with projects progressing well, safely and compliantly.
3. NDA Report - Simon Napper reported on the various documents and strategies within the Company. He also drew attention to the revised date for the Summit in Telford postponed due to the Omicron variant.
5. ONR report was presented by Ian Dallas noting that there were no areas for concern within this reporting period.
7. NRW/EA update report was presented by Rona Arckle. She stated that there were no areas for concern within this reporting period.



**Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 10 February 2022, via ZOOM**

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
D Stuart Law	Wylfa Site Director, Magnox
Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward
Simon Napper	Nuclear Decommissioning Authority (NDA)
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council, SSG Vice Chair
Cllr Gwilym O. Jones	IoACC
Mark Elsworth	Magnox
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Cllr John Griffith	IoACC
Rona Arkle	Environment Agency
David Wilby	Natural Resources Wales
Ian Dallas	Office for Nuclear Regulation (ONR)
Tim Poole	CPRW
Bill Hamilton	Magnox Communications Director
Clair Wing	Magnox Regional Communications Lead for Wales
Cllr Gwilym Morris	Rhosybol Community Council
Jonathon Holland	NW CREPS
Steve Roberts	Magnox
Jon Zalot	North Wales Police
Eirian v Lewis	Magnox Communications
Jill Callander	SSG Secretariat
Ann Llwyd	Translator - Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen
Helen Smith	Marick communications
Rebecca Chesworth	Marick communications??

Apologies:

Mair Jones	Magnox
Cllr Llinos Medi Huws	Isle of Anglesey County Council
Gwyn Roberts	Magnox EHSS&Q Site Inspector
Cllr Gareth Winston Roberts	Amlwch Town Council

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting at 2.00 pm and apologies were noted as above.

He wished to convey sincere condolences to Cllr and Mrs Gareth Winston Roberts on the tragic loss of their son Marc Roberts. A minute silence was observed at the meeting in order to reflect on this tragic loss.

The Chair welcomed the following as new members of the group:-

- Mrs Clair Wing, Magnox Regional Communications Lead for Wales
- Jonathan Holland who will be the Lead Officer for REPPiR sites in North Wales from January 2022.

Colleagues from Marick Communications went on to guide members through the process of conducting the meeting via ZOOM.

2. Approval of Minutes of the Meeting held 14 October 2021

The minutes had been circulated prior to the meeting. The minutes were received and accepted as a true record. Proposed by Aled M Jones and seconded by Gordon Warren.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised

4 SSG Chairman's Report

The Chair provided a brief update on the following:

- Magnox Chairs Meeting – 5 November 2021
- NDA Virtual Summit - 26 November 2021
- Magnox Chairs and Vice Chairs Quarterly Update Meeting 3 December 2021

He noted that the SSG Chairs quarterly meeting will be held virtually on 11.2.22.

Reference was also made to the SSG Chairs request to develop an SSG specific website. Bill Hamilton, Magnox Director of Communications confirmed that positive action is being taken as regards the request with a tentative set-up date of 1 April 2022.

He also wished Cllr. John Griffith well in his retirement from County Council duties at the end of March 2022. He stated that Cllr. Griffith had been a committed member of the SSG for the past 9 years. Cllr. Griffith thanked the Chair stating that it had been a privilege to be a member of the group and wished the SSG well in the future.

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law reiterated his sincerest condolences to Cllr. G Winston Roberts and family on behalf of all Wylfa site staff.

He also wished Cllr John Griffith well and thanked him for his valued contributions to the SSG.

SL then presented a powerpoint presentation referring to his comprehensive report, copies of which had been circulated prior to the meeting. The report is summarised as follows: -

Covid-19

- Covid-19 rates at the highest level since the start of the pandemic (figures in the area

were 2016 in every 100,000 people in Wales)

- Lateral Flow Testing (LFT) available on site as there were some difficulties in obtaining LFT test kits.
- Site continues to work with 2m social distancing guidelines.

Safety performance

- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
- Days away case rate (DACR): 0.00
- No of days since a lost time accident: 1274

People

- Wylfa staff have completed training sessions on “Becoming a project focused organisation”. The training informed staff on the programme of work to be undertaken on site.
- Roadshow was held on site by the Cyber Security & Information Assurance (CS&IA) team and the Smarter Working Technology Workstream.
- Magnox Executive carried out an annual review of the site Management Summary Schedule (MSS). Paul Winkle, Chief Operating Officer, and Gordon Frisby, Chief Financial Officer, came to site and were joined remotely by 20 or so other individuals from various functions across the company to carry out the review. A good open discussion was held around the site’s progress thus far, the work that will take place over the next two to three years and how this lined up with the three-year business plan.
- HR Director John Vickerman visited Wylfa to meet groups of staff and had a site tour.

Infrastructure Removal

The site is currently removing legacy items from:

- North Active Control Point
- Heysham Building
- Fire Station
- Portable Buildings
- R1 and R2 11’ and 18’ levels

Re-useable equipment is being shared across the NDA estate and equipment has been donated to the local fire service.

Site progress and achievements

Waste Projects

ILW Characterisation MCI Phase 2 – Flask Filling Area (FFA). Progress has been made on the development of the bespoke tooling required for this project. The Waste Project Engineering team developed the equipment assisted by local firm, BICO Engineering who manufactured components for the tooling. The team were able to obtain a Certificate of Conformity known as ‘CE’ marking for the bespoke tooling to substantiate its use.

The current strategy for delivering the Plant and Structures scope at Wylfa identifies two key projects:

- The Electrical Overlay System (EOS)
- Turbine Hall Work Pack 3 - ACM removal, de-plant and demolition of the turbine hall and its ancillary buildings.

The new Electrical Overlay System – this remains essential to moving electrical supplies away from the turbine hall. Prior to undertaking an extensive de-cabling exercise, a large

package of enabling work needs to be undertaken to ensure the continuity of decommissioning and business essential supplies and services throughout and beyond the de-cabling period.

Electrical overlay project - the EOS project team under the 'One Team' approach is progressing well and holding on to its critical path status. 'On Site Distribution Scope', is now deep into the Invitation to Tender (ITT) period and several site visits have been facilitated. Tender evaluations have taken place and the contract will be awarded in early 2022.

Infrastructure Removal Project - Heysham building. Approximately 5.5 tonnes of out-of-scope waste has been removed from the building. Air gapping of service is to commence over the next few months for a target demolition date of June 2022.

Magnox Socio-economic Scheme update

- This financial year Magnox has funded £151,001 within the local communities surrounding Wylfa, with a further £125,000 direct NDA funding.
- Menter Amlwch has been successful in receiving £50,000 Magnox funding for a new role of Business Manager over 18 months, after which the role will be self-sustainable.
- Amlwch Community Company shop - in 2017, Amlwch Community Company received £717 Magnox funding for signage and shop fittings to help the volunteers set up a community shop. The shop has since gone from strength to strength and has expanded to larger premises. Magnox contributed £1,000 towards the purchase and installation of a new upvc door and windows.
- Supporting the young members in our local communities through the good neighbour level funding. Magnox have recently supported Cemaes Bay Football Club junior section to purchase additional training equipment; Trearddur Bay Football Club juniors purchased Magnox branded training jackets, and Llanfair PG's Derwin junior football team also purchased Magnox branded winter training kits.
- NDA direct funding: Menai Science Park (MSParc) was awarded £375,000 over three years to support three new roles within the Egni Economic Improvement Project - A Nuclear Sector Development Officer, Energy STEM Outreach Project Development Officer and a Low Carbon Sector Development Officer.
- LabSTEM is a £2.2m project to refurbish, upgrade and extend STEM laboratories. Grwp LLandrillo Menai received £386,034 NDA funding to assist with creating three newly equipped laboratories in a repurposed space on the Llangefni Campus, six science laboratories between Pwllheli and Dolgellau campuses and one STEM workshop at Dolgellau's Marian Mawr site. Work on the Llangefni campus will be completed later this year.

Update on previously funded projects:

- Menter Môn, Morlais Tidal Energy Project have received a total of £900,000 funding from the NDA since 2016. In December 2021 the project reached a significant milestone, receiving planning consent approval from Welsh Government, allowing the construction phase to commence on land in preparation for work offshore and securing the marine licence from Natural Resource Wales.

The Chair thanked Mr Law for the updates.

Question and Answer Session

Cllr Ken Hughes acknowledged the steps taken to ensure an effective and efficient 'clean-up' of the site. He enquired if these steps will be maintained. SL explained that radioactive

equipment is been collected and disposed accordingly. He assured members that close monitoring will continue and be maintained within the regulations.

Cllr Derek Owen wished to commend SL and all his staff on their safety record.

6 Nuclear Decommissioning Authority

Mr Simon Napper gave a brief summary of the report previously circulated to members.

Covid 19

- Staff still largely working from home with a progressive, managed return to offices from 2 August

Annual Report & Accounts 2020 – 2021

- Total expenditure lower than forecast - £3.059bn against £3.486bn

NDA Business Plan 2021-24

- Sets out key activities and progress across the NDA group for next three financial years in line with Spending Review settlement

NDA Sustainability Report

- First NDA Sustainability Report published on 8 March 2021
- Investing in people, communities and protecting the environment for long-term future use
- Identifies key opportunities and projects to improve sustainability across NDA group

NDA Group Inclusion Strategy 2021-25

- NDA has published first group inclusion strategy covering 2021-25
- Builds on first NDA equality, diversity and inclusion strategy launched in 2018
- Five areas and commitments that will prioritise how we embed inclusion in our group culture
- Includes goals against which our progress will be measured and used to report progress

NDA Group Development

- New top team announced for NDA group – NDA Group Leadership Team (GLT)
- Aligns with move to new subsidiary model to maximise benefits of working as a group
- Comprises NDA corporate centre CEO and executives and CEOs/MDs of group operating companies
- Dr Adrian Simper appointed to joint roles of NDA Chief Scientific Advisor and Chief Nuclear Advisor to BEIS

NDA Innovation Competition

- Invite technological solutions to sort and segregate radioactive waste at oldest nuclear sites
- Value increased from £3.9m to £5.5m
- 5 companies awarded contracts each worth up to £900k to build demonstrators for their ideas
- Set to work on mixed pile of radioactive wastes – increase recycling rates, reduce no. of waste disposal containers and reduce hazards
- Successful companies are:
 - Cavendish Nuclear Ltd
 - Barnnon Ltd

- Create Technologies Ltd
- Atkins Ltd
- Veolia Nuclear Solutions (UK) Ltd

NDA Supply Chain Event

- New date – 3 February – at The International Centre, Telford. Postponed from June 2020 due to Covid pandemic. Supply Chain Award's ceremony on same day – deadline for applications at 12:00 on 1 October

SN also reported on a recent meeting between the NDA and Vaughan Gethin Minister for the Economy, Welsh Government to discuss how to strengthen links across the UK.

Question and Answer session

None received

SN was thanked for his presentation.

7 Office for Nuclear Regulation Update

Mr Ian Dallas was welcomed to the meeting and presented his report summarised as follows: -

- Throughout this reporting period, ONR's nominated site safety inspector has held fortnightly telephone meetings with a Wylfa leadership team representative to maintain situational awareness of matters related to nuclear safety, security, safeguards, transport, and conventional health and safety, including: workforce resilience, emergency arrangements resilience, supply chain resilience, fire safety, events on the site and activities taking place on the site. It was pleasing to note no significant issues were highlighted to ONR.
- Engagements with Wylfa are being kept under review and ONR are alert to the need to balance completion of planned inspections with Welsh Government and local area COVID-19 rules.
- The nominated site safety inspector held two meetings in this reporting period with safety representatives at Wylfa (one of which included a planned joint walkdown of the reactor building basement areas), to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety, and welfare at work. No concerns were raised, and the safety representatives noted a positive working relationship with the site leadership team

Question and Answer Session

None raised

The Chair thanked ID for his update

8 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update

David Wilby NRW and Rona Arkle, EA were welcomed to the meeting and presented a report covering the period from September 2021 to January 2022.

Inspections

- Inspection on decommissioning and solid waste management carried out in October 2021, jointly with ONR. The plan for early decommissioning (over the next few years) is mature, and the site is moving into a delivery phase with demolition of former administrative and ancillary buildings due to commence in the near future. There are

some encouraging signs that integrated waste planning, and site-wide oversight of waste management is improving. However, the longer-term decommissioning strategy for the site is still being developed and the scope of work which will be completed over the next 10-15 years is not yet finalised. There is no strategic forecast of waste generation and a risk that non-radioactive waste may not be managed in an optimised way. Routine arisings of low-level radioactive waste (LLW) continue to be well managed, and progress is being made with disposal of some problematic LLW. Any non-compliance with the radioactive substances permit was not identified.

- Meeting held with the Waste Enablers senior project manager in November 2021 reported good progress made on sampling and analysis of intermediate level waste (ILW). Proposals are also being developed for new facilities for processing radioactive waste and storing packaged ILW on the site until a national disposal facility becomes available.

Discharges

- Radioactive discharges to air and water from Wylfa remained well below permitted limits in this reporting period.
- Non-radioactive discharges to water were also within permitted limits.

Environmental monitoring

- We received the environmental monitoring programme results as required by the radioactive substances permit. In the third quarter of 2021, one TLD1 located on the site perimeter recorded an average daily dose rate that was higher than usual. Magnox Ltd carried out a number of checks and concluded that the elevated result was not related to any activities on the site.
- All other environmental monitoring results were in line with those from previous periods and show no cause for concern.

Permitting

- No environmental permits were varied during this reporting period.

Events and enforcement

- There have been no significant environmental events at Wylfa during this reporting period.
- No enforcement action has been taken against Magnox Ltd at Wylfa in this reporting period.

Question and Answer session

None raised

RA and DW were thanked for their attendance and update.

12 Open Forum Question and Answer Session – none raised

13. Any Other Business

The Chair wished to draw member's attention to a small group, based in Cemaes, that are aiming to raise funds to erect a monument to honour a local gentleman, Thomas Jones, known locally as Twm Titanic. This gentleman was a deck crew member and played a key role in manning Lifeboat 8 during the rescue mission following the sinking of the Titanic in 1912. This will serve to commemorate the bravery of Thomas Jones, on the 110th year

anniversary of the tragedy. It was unanimously agreed that the SSG formally write to Magnox/NDA to request their support in achieving the groups aim at commemoration.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 15:00

Dates Next Meetings – 08 September 2022 – Face to Face, Venue to be confirmed.



Crynodeb o'r Prif Bwyntiau o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle a gynhaliwyd ar Zoom ar 10 Chwefror 2022

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y canlynol: -
 - Cyfarfod Cadeiryddion Magnox – 5 Tachwedd 2021
 - Uwchgynhadledd Rithiol yr NDA - 26 Tachwedd 2021
 - Cyfarfod Diweddaru Chwarterol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Magnox - 3 Rhagfyr 2021
 - Cyfarfod chwarterol Cadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle i'w gynnal ar-lein ar 11.2.22.
 - Cyflwyno cynnig i Magnox i ddatblygu gwefan sy'n benodol i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.
2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle a ddosbarthwyd yn flaenorol ym mhecyn y cyfarfod. Roedd yn falch o ddweud, er gwaethaf heriau parhaus COVID 19, bod y safle'n dal yn weithredol a bod prosiectau'n mynd rhagddynt yn dda ac yn ddiogel, mewn modd sy'n cydymffurfio.
3. Adroddiad yr NDA – Rhoddodd Simon Napper adroddiad ar y gwahanol ddogfennau a strategaethau yn y Cwmni. Tynnodd sylw hefyd at y dyddiad diwygiedig ar gyfer yr Uwchgynhadledd yn Telford a ohiriwyd oherwydd yr amrywiolyn Omicron.
5. Cyflwynwyd adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) gan Ian Dallas yn nodi nad oedd unrhyw feysydd pryder yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
7. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd gan Rona Arckle. Dywedodd nad oedd unrhyw feysydd pryder yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa Dydd Iau 10 Chwefror 2022, ar ZOOM

Yn bresennol:

Y Cyngh. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
D Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Wylfa, Magnox
Y Cyngh. Ken Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Talybolion
Simon Napper	Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear (NDA)
Y Cyngh. Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig, Is-gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Y Cyngh. Gwilym O. Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Elsworth	Magnox
Y Cyngh. Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyngh. John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd
David Wilby	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ian Dallas	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
Bill Hamilton	Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox
Clair Wing	Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol Magnox Cymru
Y Cyngh. Gwilym Morris	Cyngor Cymuned Rhosybol
Jonathon Holland	NW CREPS
Steve Roberts	Magnox
Jon Zalot	Heddlu Gogledd Cymru
Eirian V Lewis	Uned Gyfathrebu Magnox
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Ann Llwyd	Cyfieithydd - Cymen
Sydna Roberts	Cofnodydd – Cymen
Helen Smith	Marick Communications
Rebecca Chesworth	Marick Communications

Ymddiheuriadau:

Mair Jones	Magnox
Y Cyngh. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Gwyn Roberts	Arolygydd Safle Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Magnox
Y Cyngh. Gareth Winston Roberts	Cyngor Tref Amlwch

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 2.00pm a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Dymunai gydymdeimlo'n ddifffuant â'r Cyngh. a Mrs Gareth Winston Roberts am golled drasig eu mab Marc Roberts. Cafwyd munud o dawelwch yn y cyfarfod er mwyn myfyrio ar y golled drasig hon.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol fel aelodau newydd o'r grŵp:-

- Mrs Clair Wing, Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol Magnox Cymru
- Jonathan Holland, sef y Swyddog Arweiniol ar gyfer safleoedd REPPiR yng Ngogledd Cymru o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Aeth cydweithwyr o Maricks Communications ati i egluro i aelodau y broses o gynnal y cyfarfod ar ZOOM.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan Aled M Jones ac eiliwyd gan Gordon Warren.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater

4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar y canlynol:

- Cyfarfod Cadeiryddion Magnox – 5 Tachwedd 2021
- Uwchgynhadledd Rithiol yr NDA, 26 Tachwedd 2021
- Cyfarfod Diweddarau Chwarterol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Magnox 3 Rhagfyr 2021

Nododd y bydd cyfarfod chwarterol Cadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle yn cael ei gynnal ar-lein ar 11.2.22. Cyfeiriwyd hefyd at gais Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle i ddatblygu gwefan benodol ar gyfer y Grŵp. Cadarnhaodd Bill Hamilton, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox, fod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd o ran y cais gyda dyddiad gosod amodol o 1 Ebrill 2022.

Dymunodd yn dda hefyd i'r Cyngh. John Griffith ar ei ymddeoliad o ddyletswyddau'r Cyngor Sir, ddiwedd Mawrth 2022. Dywedodd fod y Cyngh. Griffith wedi bod yn aelod ymrwymedig o Grŵp Rhanddeiliaid y Safle am y 9 mlynedd diwethaf. Diolchodd y Cyngh. Griffith i'r Cadeirydd gan ddweud ei bod wedi bod yn ffrind bod yn aelod o'r grŵp a dymunodd yn dda i'r Grŵp yn y dyfodol.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Ategodd Stuart Law ei gydymdeimlad â'r Cyngh. G Winston Roberts a'i deulu ar ran holl staff safle Wylfa.

Dymunodd yn dda i'r Cyngh. John Griffith hefyd a diolchodd iddo am ei gyfraniadau gwerthfawr i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.

Cyflwynodd SL gyflwyniad PowerPoint a gyfeiriodd at ei adroddiad cynhwysfawr, yr oedd copiâu ohono wedi cael ei rannu cyn y cyfarfod. Gellir crynhoi'r adroddiad fel a ganlyn: -

Covid-19

- Cyfraddau Covid-19 ar y lefel uchaf ers dechrau'r pandemig (roedd y ffigurau yn yr ardal yn 2016 o bob 100,000 o bobl yng Nghymru)
- Mae Profion Llif Unffordd (LFT) ar gael ar y safle gan ei bod wedi bod yn anodd i bobl cael gafael ar becynnau profi LFT.
- Mae'r safle'n parhau i weithio yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol o 2m.

Perfformiad diogelwch

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
- Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 1274

Pobl

- Mae staff Wylfa wedi cwblhau sesiynau hyfforddi ar "Dod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar brosiectau". Rhoddodd yr hyfforddiant wybodaeth i'r staff am y rhaglen waith sydd i'w chynnal ar y safle.
- Cynhaliwyd y Sioe Deithiol ar y safle gan y tîm Seiberddiogelwch a Sicrhau Gwybodaeth (CS&IA) a'r Ffrwd Waith Technoleg Gweithio'n Glyfar.
- Cynhaliodd Bwrdd Gweithredol Magnox adolygiad blynyddol o Atodlen Cryno Rheoli (MSS) y safle. Daeth Paul Winkle, Prif Swyddog Gweithredol, a Gordon Frisby, Prif Swyddog Ariannol, i'r safle ac ymunodd oddeutu 20 o unigolion eraill o wahanol swyddogaethau ar draws y cwmni â nhw i gynnal yr adolygiad. Cafwyd trafodaeth agored dda ynghylch cynnydd y safle hyd yma, y gwaith a fydd yn cael ei wneud dros y ddwy i dair blynedd nesaf a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r cynllun busnes tair blynedd.
- Ymwelodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, John Vickerman â Wylfa i gwrdd â grwpiau o staff a chael taith o amgylch y safle.

Tynnu Seilwaith

Ar hyn o bryd mae'r safle'n tynnu hen eitemau o'r llefydd canlynol:

- Pwynt Rheoli Gweithredol y Gogledd
- Adeilad Heysham
- Gorsaf Dân
- Adeiladau Cludadwy
- Lefelau 11' ac 18' R1 ac R2

Mae cyfarpar y gellir ei aildddefnyddio yn cael ei rannu ar draws ystad yr NDA ac mae cyfarpar wedi cael ei roi i'r gwasanaeth tân lleol.

Cynnydd a chyflawniadau'r safle

Prosiectau Gwastraff

Pennu Nodweddion Gwastraff Lefel Ganolraddol MCI Cam 2 – Ardal Llenwi Fflasgiau (FFA). Mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu'r offer pwrpasol sydd ei angen ar gyfer y prosiect hwn. Datblygodd y tîm Peirianneg Prosiect y cyfarpar gyda chymorth y cwmni lleol, BICO Engineering a weithgynhyrchodd gydrannau ar gyfer yr offer. Roedd y tîm wedi llwyddo i gael Tystysgrif Cydymffurfio a elwir yn farc 'CE' ar gyfer yr offer pwrpasol i gadarnhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio.

Mae'r strategaeth bresennol ar gyfer cyflawni'r cwmpas Peiriannau a Strwythurau yn Wylfa yn nodi dau brosiect allweddol:

- Y System Troshaenau Trydanol (EOS)
- Pecyn Gwaith 3 Neuadd y Tyrbîn - tynnu ACM, tynnu peiriannau a dymchwel neuadd y tyrbîn a'r adeiladau ategol.

Y System Troshaenau Trydanol newydd – mae hyn yn hanfodol o hyd er mwyn symud cyflenwadau trydanol oddi wrth neuadd y tyrbin. Cyn ymgymryd ag ymarfer tynnu ceblau helaeth, mae angen gwneud pecyn mawr o waith galluogi i sicrhau parhad y gwaith datgomisiynu a gwasanaethau a chyflenwadau hanfodol busnes drwy gydol a thu hwnt i'r cyfnod tynnu ceblau.

Prosiect troshaenau trydanol - mae gwaith tîm y prosiect EOS o dan y dull 'Un Tîm' yn mynd rhagddo'n dda ac yn cynnal ei statws llwybr critigol. Mae'r 'Cwmpas Dosbarthu ar y Safle' ar ganol cyfnod y Gwahoddiad i Dendro ac mae nifer o ymweliadau safle wedi cael eu hwyluso. Mae gwerthusiadau tendro wedi cael eu cynnal a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu ddechrau 2022.

Prosiect Tynnu Seilwaith - adeilad Heysham. Mae tua 5.5 tunnell o wastraff y tu allan i'r cwmpas wedi cael ei dynnu o'r adeilad. Bydd y gwaith o osod bylchau aer y gwasanaeth (air gapping) yn cychwyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ar gyfer dyddiad dymchwel targed o fis Mehefin 2022.

Diweddariad am Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae Magnox wedi ariannu £151,001 yn y cymunedau lleol o amgylch Wylfa, gyda £125,000 o gyllid uniongyrchol gan yr NDA.
- Mae Menter Amlwch wedi llwyddo i gael £50,000 o gyllid Magnox ar gyfer swydd newydd Rheolwr Busnes dros 18 mis, ac ar ôl hynny bydd y rôl yn hunangynhaliol.
- Siop Cwmni Cymunedol Amlwch – yn 2017, derbyniodd Cwmni Cymunedol Amlwch £717 o gyllid Magnox ar gyfer arwyddion a ffitiadau siop i helpu'r gwirfoddolwyr i sefydlu siop gymunedol. Ers hynny, mae'r siop wedi mynd o nerth i nerth ac wedi ehangu i adeilad mwy o faint. Cyfrannodd Magnox £1,000 tuag at brynu a gosod drws a ffenestri upvc newydd.
- Cefnogi'r aelodau ifanc yn ein cymunedau lleol drwy gyllid lefel cymydog da. Yn ddiweddar, mae Magnox wedi cefnogi adran iau Clwb Pêl-droed Bae Cemaes i brynu cyfarpar hyfforddi ychwanegol; prynodd adran iau Clwb Pêl-droed Bae Trearddur siacedi hyfforddi wedi'u brandio gan Magnox, ac fe brynodd tîm pêl-droed iau Derwin Llanfairpwll hefyd ddillad hyfforddi'r gaeaf wedi'u brandio gan Magnox.
- Y prosiectau a gaiff eu hariannu'n uniongyrchol gan yr NDA: Dyfarnwyd £375,000 i Barc Gwyddoniaeth Menai (MSParc) dros dair blynedd i gefnogi tair swydd newydd ym Mhrosiect Gwella Economaidd Egni – Swyddog Datblygu'r Sector Niwclear, Swyddog Datblygu Prosiect Allgymorth STEM Ynni a Swyddog Datblygu'r Sector Carbon Isel.
- Mae LabSTEM yn brosiect gwerth £2.2m i adnewyddu, uwchraddio ac ymestyn labordai STEM. Derbyniodd Grŵp Llandrillo Menai £386,034 o gyllid gan yr NDA i helpu i greu tri labordy o'r radd flaenaf mewn gofod wedi'i addasu ar Gampws Llangefni, chwe labordy gwyddoniaeth rhwng campysau Pwllheli a Dolgellau ac un gweithdy STEM ar safle Marian Mawr yn Nolgellau. Bydd y gwaith ar gampws Llangefni yn cael ei gwblhau yn nes ymlaen eleni.

Y diweddaraaf am brosiectau a ariannwyd yn flaenorol:

- Mae Prosiect Ynni'r Llanw Morlais, Menter Môn wedi cael cyfanswm o £900,000 gan yr NDA ers 2016. Ym mis Rhagfyr 2021, cyrhaeddodd y prosiect garreg filltir bwysig, gan dderbyn caniatâd cynllunio gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn caniatáu i'r cam adeiladu ddechrau ar dir i baratoi ar gyfer gwaith ar y môr a sicrhau'r drwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Law am ei ddiweddariad.

Sesiwn Holi ac Ateb

Cydnabu'r Cyngh. Ken Hughes y camau a gymerwyd i sicrhau bod y safle'n cael ei 'lanhau' yn effeithiol ac yn effeithlon. Gofynnodd a fydd y camau hyn yn cael eu cynnal. Eglurodd SL fod cyfarpar ymbelydrol yn cael ei gasglu a'i waredu yn unol â hynny. Sicrhodd yr aelodau y bydd monitro agos yn parhau ac y bydd yn cael ei gynnal o fewn y rheoliadau.

Dymunai'r Cyngh. Derek Owen gymeradwyo SL a'i holl staff ar eu record diogelwch.

6 Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Rhoddodd Mr Simon Napper grynodedd byr o'r adroddiad a ddosbarthwyd eisoes i'r aelodau.

Covid 19

- Mae'r staff yn dal i weithio gartref i raddau helaeth, ac o 2 Awst ymlaen fe'u gwelwyd yn dychwelyd yn raddol, mewn ffordd wedi'i rheoli

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020 – 2021

- Cyfanswm gwariant yn is na'r disgwyl - £3.059bn o gymharu â £3.486bn

Cynllun Busnes 2021-24 yr NDA

- Mae'n amlinellu'r prif weithgareddau a'r cynnydd ar draws grŵp yr NDA ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, yn unol â setliad yr Adolygiad o Wariant

Adroddiad Cynaliadwyedd yr NDA

- Cyhoeddwyd Adroddiad Cynaliadwyedd cyntaf yr NDA ar 8 Mawrth 2021
- Buddsoddi mewn pobl, cymunedau a gwarchod yr amgylchedd i'w ddefnyddio yn y tymor hir
- Mae'n nodi cyfleoedd a phrosiectau allweddol i wella cynaliadwyedd ar draws grŵp yr NDA

Strategaeth Cynhwysiant 2021-25 Grŵp yr NDA

- Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei strategaeth cynhwysiant grŵp cyntaf ar gyfer 2021-25
- Mae'n adeiladu ar strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gyntaf yr NDA a lansiwyd yn 2018
- Mae pum maes ac ymrwymiad a fydd yn blaenoriaethu sut rydym yn gwreiddio cynhwysiant yn niwylliant ein grŵp
- Mae'n cynnwys nodau y bydd ein cynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn ac a fydd yn cael eu defnyddio i adrodd ar gynnydd

Datblygu Grŵp yr NDA

- Cyhoeddi tîm newydd ar gyfer grŵp yr NDA – Tîm Arwain Grŵp yr NDA (GLT)
- Mae'n cyd-fynd â'r newid i fodel is-gwmni newydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar weithio fel grŵp
- Mae'n cynnwys Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol canolfan gorfforaethol yr NDA a Phrif Weithredwyr/Rheolwyr Gyfarwyddwyr cwmnïau gweithredu'r grŵp
- Penodwyd Dr Adrian Simper i swyddi ar y cyd fel Prif Gynghorydd Gwyddonol yr NDA a Phrif Gynghorydd Niwclear BEIS

Cystadleuaeth Arloesi yr NDA

- Gwahodd atebion technolegol i ddiidoli a gwahanu gwastraff ymbelydrol yn y safleoedd niwclear hynaf
- Cynyddodd y gwerth o £3.9m i £5.5m
- Enillodd 5 cwmni gontractau sy'n werth hyd at £900k i greu arddangoswyr ar gyfer

- eu syniadau
- Bydd yn gweithio ar bentwr cymysg o wastraff ymbelydrol – cynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau nifer y cynwysyddion gwaredu gwastraff a lleihau peryglon
- Dyma'r cwmnïau llwyddiannus:
 - Cavendish Nuclear Ltd
 - Barnnon Ltd
 - Create Technologies Ltd
 - Atkins Ltd
 - Veolia Nuclear Solutions (UK) Ltd

Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi'r NDA

- Dyddiad newydd – 3 Chwefror – yn The International Centre, Telford Wedi'i ohirio o fis Mehefin 2020 oherwydd pandemig Covid-19 Bydd Seremoni Wobrwyo'r Gadwyn Gyflenwi ar yr un diwrnod – y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00 ar 1 Hydref 2021.

Adroddodd SN hefyd ar gyfarfod diweddar rhwng yr NDA a Vaughan Gethin, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru, i drafod sut i gryfhau cysylltiadau ledled y DU.

Sesiwn Holi ac Ateb

Dim wedi'u derbyn

Diolchwyd i SN am ei gyflwyniad.

7

Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Croesawyd Mr Ian Dallas i'r cyfarfod a chyflwynodd ei adroddiad, fel y crynhoir isod: -

- Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae arolygydd diogelwch safle enwebedig y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi cynnal cyfarfodydd ffôn bob pythefnos gyda chynrychiolydd o dîm arwain Wylfa i gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch niwclear, diogelwch eiddo, mesurau diogelu, trafnidiaeth, ac iechyd a diogelwch confensiynol, gan gynnwys: cadernid y gweithlu, gwytnwch y trefniadau argyfwng, cadernid y gadwyn gyflenwi, diogelwch tân, digwyddiadau ar y safle a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y safle. Braff oedd nodi na thynnwyd sylw'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear at unrhyw faterion o bwys.
- Mae'r gwaith ymgysylltu â Wylfa yn cael ei adolygu'n gyson ac mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn ymwybodol bod angen cydbwysu'r dasg o gwblhau arolygiadau arfaethedig â rheolau COVID-19 Llywodraeth Cymru a'r ardal leol.
- Cynhaliodd yr arolygydd diogelwch safle enwebedig ddau gyfarfod yn ystod y cyfnod adrodd hwn gyda chynrychiolwyr diogelwch yn Wylfa (roedd un ohonynt yn cynnwys taith gerdded ar y cyd wedi'i chynllunio ymlaen llaw ar gyfer ardaloedd islawr adeiladau'r adweithyddion), i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn y gwaith. Ni chodwyd unrhyw bryderon, a nododd y cynrychiolwyr diogelwch berthynas waith gadarnhaol gyda thîm arwain y safle

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni chodwyd unrhyw fater

Diolchodd y Cadeirydd i ID am ei ddiweddariad.

8 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Croesawyd David Wilby, Cyfoeth Naturiol Cymru a Rona Arkle, Asiantaeth yr Amgylchedd i'r cyfarfod a chyflwynodd y ddau adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022.

Arolygiadau

